

## Datgarboneiddio a Llywodraeth Leol.

### Pwrpas

1. Cynnig cyd-ddatganiad a rhaglen waith ar ddatgarboneiddio a cheisio barn y Cyngor Partneriaeth

### Y Cefndir

2. Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r materion sy'n diffinio ein hoes.
  3. Mae'r argyfwng COVID-19 presennol wedi newid ein byd yn gyflym ac mewn ffyrdd na fyddem wedi gallu eu dychmygu.
  4. Mae'r cyfyngiadau symud wedi gorfodi llawer o bobl i aros gartref. Mae llai o drafnidiaeth ar y ffyrdd a llai o weithgarwch economaidd wedi lleihau allyriadau carbon. Mae'r cyfanswm o CO2 sy'n cael ei ryddhau gan bobl bob dydd wedi lleihau hyd at 17% yn ystod yr argyfwng.
  5. Mae argyfwng COVID-19 hefyd wedi achosi newid ymddygiad cyflym a heb ei gynsail. Mae llawer o hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan gynnwys darparu gwasanaethau yn ddigidol, gweithio gartref, teithio llai, defnyddio technoleg yn y gweithle a llawer mwy. O'r blaen, roedd llawer o'r camau hyn yn cael eu hystyried yn rhai 'amhosibl' ond yn awr rydym yn gwybod eu bod yn bosibl.
  6. Er bod y ffocws ar hyn o bryd ar leihau'r argyfwng presennol, mae gennym hefyd gyfle i adeiladu ar y newidiadau a chreu cymdeithas gynaliadwy gydag allyriadau isel. Heb weithredu yn gyflym, bydd unrhyw enillion dros dro yn cael eu gwrthwneud yn gyflym.
  7. Mae'n rhaid i ddatgarboneiddio a'r amgylchedd fod yn **ganolog** i gynlluniau adfer COVID-19.
  8. Ym mis Mawrth 2019 lansiodd y Prif Weinidog y ddogfen *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*<sup>[1]</sup>. Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ar 29 Ebrill 2019. Ac ar 1 Mai 2019 Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i basio Datganiad Argyfwng Hinsawdd. Mae Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol o allyriadau carbon sero-net ar draws y sector cyhoeddus erbyn 2030.
  9. Hyd yn hyn mae 12 o'r 22 awdurdod lleol wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd.
-

10. Mae arweinyddiaeth gref ac ymgysylltu gwleidyddol ar draws llywodraethau cenedlaethol a lleol yn allweddol wrth sicrhau'r dull cyson a chadarn sydd ei angen i gyrraedd y targed o allyriadau carbon sero-net erbyn 2030. Mae llywodraethau lleol yn hanfodol i'r gwaith o gyflawni datgarboneiddio, yn enwedig wrth ddarparu arweinyddiaeth leol ledled Cymru.
11. Eleni mae dwy garreg filltir allweddol, cyfleoedd pwysig i ddangos y cynnydd yng Nghymru:
  - Mae'r DU yn cynnal COP26 yn 2021.
  - Roedd Ebrill 2020 yn nodi blwyddyn ers i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd, ac mae mwy a mwy o awdurdodau lleol yn datgan argyfwng hinsawdd.

Mae'r sector cyhoeddus o dan bwysau cynyddol i symud yr agenda hon yn ei blaen mewn modd cyflym, gan gydweithio i ddangos arweinyddiaeth a newid yn enwedig drwy sicrhau bod y camau adfer o COVID-19 yn ddatrysiadau cynaliadwy, uchelgeisiol, hirdymor.

### **Cynigir y camau gweithredu canlynol:**

12. Cyd-ddatganiad (gweler y drafft yn Atodiad A) gan awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, cynghorau tref a chymuned a Llywodraeth Cymru, sy'n pennu cyfeiriad arweinyddiaeth uchelgeisiol a sicrhau bod gan bob awdurdod lleol gynlluniau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer sicrhau carbon sero-net erbyn 2030 ar waith cyn COP26.
13. Llywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu a gweithredu rhaglen ddatgarboneiddio ar gyfer cefnogi awdurdodau lleol (yn seiliedig ar y rhaglen Cymorth ar gyfer Brexit lwyddiannus a oedd yn rhoi arweiniad strategol, offerynnau a gwybodaeth i sicrhau dull cyson a chyfathrebu rhagorol), mewn partneriaeth ag adrannau technegol/polisi cysylltiedig o fewn Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
14. Creu Panel Strategaeth Datgarboneiddio. Y nod fyddai darparu trosolwg strategol ac arweinyddiaeth gydweithiol, a sianel gyfathrebu hanfodol.

Y cynnig yw sefydlu'r canlynol:

- a) Arweinyddiaeth wleidyddol gan y Cyngor Partneriaeth (neu is-grŵp y Cyngor Partneriaeth) i gynyddu ymgysylltu gwleidyddol cymaint ag y bo modd.
- b) Grŵp ar lefel swyddogion (prif weithredwyr cynrychioladol, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn seiliedig ar y Panel Cyngori Awdurdodau Lleol llwyddiannus ar Baratoi at Ymadael â'r EU) a allai adrodd yn ffurfiol neu'n anffurfiol i'r Cyngor Partneriaeth neu i'r is-grŵp newydd.

15. Datgarboneiddio i fod yn eitem sefydlog ar gyfer y Cyngor Partneriaeth yn ystod 2020 nes y cytunir ar y strwythurau newydd, wedi eu hamlinellu ym mharagraff 9, a'u bod wedi cael eu rhoi ar waith.
16. Fel cam cyntaf mae'r cynnig a'r Cyd-ddatganiad hwn yn creu fframwaith a strwythur ar gyfer llywodraethau lleol, gwasanaethau tân ac achub a chynghorau tref a chymuned. Os yw sefydliadau eraill am lofnodi gallant wneud hynny, naill ai nawr neu mewn Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol.

### **Rhaglen gymorth ehangach ar gyfer y dyfodol**

17. Y cynigion a wnaed ym mharagraffau 7–10 yw'r camau cyntaf mewn rhaglen o waith sy'n ehangach o lawer, y bydd angen ei chyflawni er mwyn sicrhau ein huchelgais o garbon sero-net ledled sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.

### **Ceisir cytundeb ar y canlynol**

18. Y Cyd-ddatganiad.
19. Goruchwyliaeth/rôl arwain y Cyngor Partneriaeth a sefydlu Panel Strategaeth Datgarboneiddio.

Atodiad A

## DRAFFT – CYD-DDATGANIAD

*Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer newid i economi carbon isel. Arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus yw'r prif ysgogydd a nodir yn y ddogfen Cymru Carbon Isel, a bydd angen ymdrech ar y cyd gan 'Dîm Cymru' ar draws yr holl sector cyhoeddus i wireddu ein huchelgais.*

*Mae Cymru wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net yn y sector cyhoeddus erbyn 2030, gyda blaenoriaeth benodol ar leihau allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau, trafnidiaeth, a'r nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael, gan ddefnyddio ein tir i dynnu cymaint o nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer ag rydym yn eu rhyddhau.*

*Ym mis Tachwedd 2020 bydd Glasgow yn cynnal Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd – COP26. Bydd llywodraethau lleol a Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfle cyffrous hwn i ddangos ein cyflawniadau i'r byd.*

*I helpu i gyrraedd y targed pwysig ac uchelgeisiol hwn, ac i baratoi ar gyfer COP26, mae awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub yn ymrwymo i sicrhau bod datgarboneiddio'n cael ei ymgorffori yn eu holl waith drwy wneud y canlynol:*

- *Deall eu hól troed carbon, yn unol â'r canllawiau ar adrodd am allyriadau nwyon tŷ gwydr gan y sector cyhoeddus*
- *Cytuno i set o ymrwymadau/addunedau i sicrhau allyriadau carbon sero-net ar gyfer COP26*
- *Monitro'n agos ac adrodd ar eu hallyriadau carbon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol*
- *Ymrwymo i sicrhau cynnydd erbyn cyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Mehefin*
- *Sicrhau bod gan bob awdurdod lleol gynlluniau sero-net ar waith sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod y rhain yn ddogfennau byw, erbyn mis Mawrth 2021*
- *Gweithio gyda'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio newydd*

*Mae Cyngorau Tref a Chymuned yn cyrraedd pobl a chymunedau ar y lefel fwyaf lleol posibl. Yn hyn o beth fe'u hanogir yn gryf i ymrwymo i ddatgarboneiddio mewn ffyrdd sy'n gymesur â'u gweithgareddau a'u hamgylchiadau*

*Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gweithredu hwn drwy gynnig cymorth technegol, masnachol ac ariannol i gyrff cyhoeddus i roi camau ar waith, a datblygu offeryn adrodd ar gyfer Cymru gyfan gyda mewnbwn gan Gyrff Cyhoeddus.*

*Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnig rhaglen i Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub, drwy ddarparu gwybodaeth, arbenigedd a hyfforddiant, a sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu ledled Cymru.*

*Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu arweinyddiaeth sector well ar ddatgarboneiddio. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau, datblygu sianeli cyfathrebu a lleihau dyblygu ar y daith i sicrhau carbon sero-net.*